

# Papur Pawb

Pris: 50c

Tachwedd 2015

Rhif 413



Lle mae'r bêl? Adroddiad ar y gêm rhwng Tal-y-bont a Llanilar ar dudalen 12.

tud 3, 4  
Pobl a Phethe

tud 4, 5, 9  
Ysgolion

tud 11  
Y Gair Olaf

tud 12  
Chwaraeon

## Yr Awen yn Llifo

Y trwbadŵr Gwilym Morus yn ysgogi trigolion yr ardal i gyfansoddi a mwyl. Darllenwch ymlaen.

Fis Hydref diwethaf rhoddais wahoddiad i drigolion Tal-y-bont gyfrannu penillion ar destun yr Afon Leri er mwyn i mi eu gosod i gerddoriaeth. Erbyn hyn mae casgliad da o benillion wedi cyrraedd a'r gwaith o'u gosod wedi cychwyn (gweler gwilmor.com am ganeuon sydd bellach ar y gweill). Un o'r cerddi cyntaf i ddod i law oedd yr isod gan Carys Briddon, penillion addas iawn ar gyfer cân werin:

### Yr Afon Leri

Drwy'r pentref bach lle'm ganwyd i  
Y Leri lifa heibio,  
Ac yn ei dyfroedd gloyw glân  
Fe glywaf gân yn suo.  
Wrth ddilyn hynt ei thait i'r môr,  
Mae gennyf stôr o gofion  
Am ddyddiau mebyd na ddaw'n ôl,  
Ond oesol ydi'r afon.  
Pe gallai siarad, fe wn i,  
Dywedai imi bethau  
Am rheiny oedd yn byw'n y fro,—  
Dan glo mae'r cyfrinachau.

*Carys Briddon*



Gwilym Morus, Siân Saunders  
Fal Jenkins a Martin Dafis ar eu  
ffordd i Graig y Pistyll

Nid rhyfedd yw darganfod yr afon hon ar ganol bywyd cymunedol Tal-y-bont. Mae'n rhan annatod o brofiad y fro, ei bwrwm a'i sisial mor gyffredin fel nad ydym ni'n ymwybodol ohoni gan amlaf. Ond eto mae ei dyfroedd parhaol, hirhoedlog yn galw'r gorffennol i gof, ac yn ei swm mae'r atgofion yn llifo, thema sydd hefyd yn rhedeg drwy gyfraniad Bleddyn Owen Huws, un o olygyddion Papur Pawb, a thipyn o fardd ar y slei:

### Penillion Afon Leri

Beth yw'r swm sy'n afon Leri  
ar ei rhuthr tua'r môr?  
Pa ryw gordiau sy'n ei dyfroedd  
yn ymchwyddo'n un encôr?  
Ai swm hiraeth hen alawon  
cymanfaoedd dyddiau gynt  
rua'n wyllt ym merw'i thonnau  
rhwyng y brynau ar ei hynt?  
Ai swm lleisiau o'r gorffennol  
yn llawn cynnwrf nos a dydd  
sy'n atseinio hyd ei glannau,  
weithiau'n llon ac weithiau'n brudd?  
Dywed rhai mai swm ei dagrau  
glywir beunydd yn ddi-daw  
uwch y rhedyn ym Mraichgarw  
pan fydd hindda, pan fydd glaw.  
Clywaf gân sy'n hŷn na hanes  
yn ei rhuthr tua'r lli,  
cân ddiamsr maith ganrifoedd  
fodda glust f'eiliadau i.

*Bleddyn Owen Huws*

Efallai nad ydi hi mor annisgwyl i feirdd ddefnyddio afon fel trosiad am lif amser, ac nid rhyfedd i'r trosiad hwnnw gael ei ymestyn i gynnwys hanes yr ardal ei hun, fel y gwelir yng nghyfraniad David

Jones, Bwlchdyddwyallt, sydd wedi danfon cerdd ar destun hanes penodol iawn. Rhaid dweud cyn mynd dim pellach, fel brodor o Gwm Ceulan nid oedd David am fradychu ei gwm ei hun drwy ganu am gymoedd mor estron â Chwm Eleri. Rhaid peidio ag esgeuluso'r cymoedd eraill, wrth gwrs, yn enwedig pan mae straeon ysgytwol yn perthyn iddyn nhw hefyd. Ar destun y gweithfeydd mwyn ym mhen uchaf Cwm Ceulan cyfansoddodd David y gyfres hon o benillion:

### Gwaith Blaenceulan

Gwêl y graith yn ein bro  
Lle bu mwynwyr yn ymgloddio,  
Lle bu'r gaib yn ergydio,  
Cerrig bregus sy'n dadfeilio.  
Y lleithder oedd y nychdod -  
Gwlybanaeth a'i ddiflasdod,  
A'r tywyllwch yn ymosod  
Ar yr enaid, ar y bod.  
Mor werthfawr bu y metel  
Nes denu'r llŷ i'r lefel,  
Yr ifanc yn troedio'r twnel,  
Ond buan fu eu ffarwel.

*David Jones*

Dyma gerdd sy'n coffau'r mwynwyr dienw hynny na ddychwelodd o'u gwaith, ac mae'n atgof o beryglon diwydiannol y gorffennol a bywydau caled y dyddiau hynny. Er bod profiadau o'r fath yn ymddangos braidd yn estron i ni heddiw, rhaid peidio ag anghofio mai dyma oedd ffawd nifer yn y diwydiannau trwm hyd at yn gymharol ddiweddar.



Rwyf wedi bod yn ffodus iawn hyd yn hyn i dderbyn penillion sy'n hynod hawdd i'w gosod i gerddoriaeth a'u canu, ac yn hynod ddiolchgar i feirdd lleol Tal-y-bont am fod mor garedig a rhwydd gyda'u hawen. Mae'r cynllun yn parhau am fis arall, ac mae croeso i unrhyw un gyfrannu penillion drwy'r wefan gwilmor.com. Rwyf innau a fy chwaer, Siwan wedi cychwyn ymarfer y caneuon, a chewch flas o'r gwaith Nos Wener, 20 Tachwedd, yn y Llew Du, Tal-y-bont. Hefyd y noson flaenorol (Nos Iau, 19) mae'r cynllun ehangach, Cymerau yn gwneud cyflwyniad yn y Neuadd Goffa, ac ar Ragfyr y 3ydd byddaf yn cymryd rhan mewn noson yn eglwys Elerch gyda Jane Lloyd Francis a'r cynllun Ar Lan y Leri. Mae croeso mawr i drigolion yr ardal fynychu pob un o'r digwyddiadau yma. Mewn sawl ffordd cynllun ar eich cyfer chi ydi o, felly rwy'n eich annog i wneud y gorau ohoni.

*Gwilym Morus-Baird*

Un oedd yn awyddus i ymuno â'r amrywiaeth mae Gwilym yn ei gynnis oedd Fal Jenkins a dyma ei hargraffiadau hi o daith gerdded gerddorol diweddar.

parhad tud 8

## Papur Pawb

<b>Golygydd Cyffredinol:</b>	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
<b>Tynnu lluniau:</b>	Cysyllter â golygyddion y mis	
<b>Tal-y-bont:</b>	<b>GOHEBYDDION LLEOL</b> Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	<b>832592</b> <b>832438</b> <b>832483</b>
<b>Maes-y-deri:</b>	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	<b>832498</b>
<b>Parsel Henlllys:</b>	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	<b>832566</b>
<b>Bont-goch:</b>	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	<b>832230</b>
<b>Tre Taliesin:</b>	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	<b>(01654) 781260</b>
<b>Tre'r-ddôl:</b>	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	<b>(01654) 781324</b>
<b>Eglwysfach/Ffwrnais:</b>	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	
<b>Cadeirydd:</b>	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	<b>832760</b>
<b>Is-gadeirydd:</b>	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	<b>832203</b>
<b>Ysgrifennydd:</b>	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	<b>832344</b>
<b>Trysorydd:</b>	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	<b>832093</b>
<b>Tanygrifiadau:</b>	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	<b>832448</b>
<b>Hysbysebion:</b>	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	<b>832076</b>
<b>Plygu'r Papur:</b>	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
<b>Dosbarthwyr:</b>	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

### FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN CYFARFOD BLYNYDDOL

yn y Cartref  
Nos Fawrth  
24 Tachwedd 2015  
am 7.00 o'r gloch  
Croeso cynnes i bawb

### CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT CINIO BLYNYDDOL

yn Y Blac  
Nos Sadwrn 5 Rhagfyr 2015  
7.00 i 7.30 o'r gloch  
Enwau i Janet Jones (832293) erbyn  
28 Tachwedd 2015

### CYNGERDD NADOLIG A NOSON GOFFI CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT

nos Lun, 14 Rhagfyr  
6.30 o'r gloch Neuadd Goffa, Tal-  
y-bont.  
£3.00.  
Croeso cynnes i bawb!

### CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT GYRFA CHWIST A DOFEDNOD

gyda Raffl Fawr  
a gwobrau amrywiol  
Neuadd Goffa  
Nos fercher 16 Rhagfyr 2015  
am 8.00 o'r gloch  
Croeso cynnes i bawb

### THEATR GYDWEITHREDOL TROEDYRHIW POBL YR YMYLON

Neuadd Goffa Tal-y-bont  
Nos Fercher, 25 Tachwedd, 2015  
7.30 o'r gloch

Ifan Gruffydd (Ifan Tregaron), Sam Jones,  
Mari Jones, Lowri Jones,  
Dafydd Morse, Hannah Parr, Dafydd Jones,  
Dafydd Edwards, Sion Pennant

## Cronfa Eleri

**Blwyddyn 2015 – dros £18,000 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau  
sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: [cronfaeleri.cymru](http://cronfaeleri.cymru)

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: [ymholiadau@cronfaeleri.com](mailto:ymholiadau@cronfaeleri.com)

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 16eg 2016**

### Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol  
cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

## Dyddiadur

### TACHWEDD

#### 14 Eglwys Dewi Sant

12 Cymun Bendigaid  
i'w offrymu gan y Gwir  
Barchedig Wyn Evans,  
Esgob Tyddewi

#### 15 Bethel 10 Oedfa

Rehoboth 5 Judith Morris  
Eglwys Dewi Sant

#### 11 Cymun Bendigaid

#### Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Hwyrwl Weddi

#### 16 Merched y Wawr

Tal-y-bont a'r Cylch  
'Gwlân' (Ruth Jên)

#### 19 Sefydliad y Merched

Tal-y-bont 'Crefftau  
Nadoligaidd'  
(Ruth Jên Evans)

#### 20 Clwb Nos Wener

'Penillion i'r Leri' (Gwilym  
Morus-Baird) 8 Y Llew Du

#### 22 Bethel 10 Gweinidog (C)

Rehoboth 5 Bugail  
Eglwys Dewi Sant 11

Gwasanaeth Teuluol

#### 24 Cymdeithas Treftadaeth

Llangynfelyn 'Yr enwocaf  
o drigolion Llangynfelyn:  
y digymar Ddoc 'Tom a'i fro'  
(Geraint H. Jenkins) 7.30  
Llan Fach

#### 24 Ffrindiau Cartref

Tregerddan Cyfarfod  
Blynyddol 7.00 o'r gloch

#### 25 Drama 'Pobl yr Ymylon'

(Cwmni Theatr Troedryhiw)  
7.30 Neuadd Goffa  
Tal-y-bont

#### 28 Ffair Flynyddol Neuadd

Goffa Tal-y-bont 2 p.m.

#### 29 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu

Nasareth 2 Terry Edwards  
Rehoboth 10 Richard Lewis

#### Eglwys Dewi Sant 10

Gwasanaeth Undebol yn  
Eglwys Sant Mihangel,  
Llandre

### RHAGFYR

#### 2 Sefydliad y Merched

Taliesin Gosod blodau  
Nadoligaidd yn festri capel  
Rehoboth

#### 2 Sioe Nadolig Ysgol

Llangynfelyn Neuadd  
Llanfach am 6 o'r gloch.

#### 3 Eglwys Dewi Sant

Tal-y-bont 7 Cyfarfod i  
drafod dyfodol yr eglwys  
(yn dilyn o'r cyfarfod ar  
1 Gorffennaf)

#### 5 Cinio Blynyddol Cymdeithas

Sioe Tal-y-bont

#### 6 Bethel 5 Gweinidog

Rehoboth 5 Bugail (C)

### Eglwys Dewi Sant

11 Boreol Weddi

### Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Gwasanaeth Carolau

### 8 Cymdeithas y Chwirydd

Rehoboth 2 'Hanes Yr Hen  
Goleg' (Elgan Philip Davies)

### 9 Cyngerdd Nadolig Ysgol

Tal-y-bont Capel Bethel 6.00

### 10 Sefydliad y Merched

Tal-y-bont 'Parti Nadolig'

### 14 Cylch Meithrin Tal-y-bont

Drama'r Geni a Noson Goffi  
6.30 Neuadd Goffa

### 16 Gyrfa Chwist Dofednod

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont  
8.00 o'r gloch

### Os am gynnwys manylion

am weithgareddau eich  
mudiad neu'ch sefydliad yn  
nyddiadur y mis, dylech  
anfon y manylion llawn at  
Carys Briddon,  
[carysbriddon@btinternet.com](mailto:carysbriddon@btinternet.com)  
01970 832478 o leiaf ddeng  
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o  
Papur Pawb.

### GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd  
Medi a Llio, gyda Tanwen yn  
dylunio. Golygyddion mis Rhagfyr  
fydd Arthur a Rebecca Bledwyn  
(rebswilliams@yahoo.com) gyda  
Ceri yn dylunio. Y dyddiad cau ar  
gyfer derbyn newyddion fydd dydd  
Gwener 4 Rhagfyr, a bydd y papur  
ar werth ar 11 Rhagfyr.

### CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Er gwybodaeth, mae Papur Pawb yn  
ffodus i gael cymorth Ceri Morgan  
sydd wedi derbyn y cyfrifoldeb am  
gasglu newyddion perthnasol i ni o'r  
cyfryngau cymdeithasol (Gweplyfr  
(Facebook), Trydar ac yn y blaen).

Gallwch gysylltu â Ceri drwy'r  
dulliau hyn. Cofiwch hefyd fod gan  
Bapur Pawb grŵp ar Gweplyfr.

### ARCHIFO EIN GWEFAN

Mae Papur pawb wedi derbyn  
cais gan y Llyfrgell Genedlaethol  
i gymryd rhan mewn prosiect  
archifo gwefannau. Mae'r prosiect  
yn bartneriaeth rhwng Llyfrgell  
Genedlaethol Cymru, y Llyfrgell  
Brydeinig, a Llyfrgell Genedlaethol  
yr Alban i ddiogelu gwefannau ar  
gyfer defnyddwyr y dyfodol. Bydd  
ein gwefan (<http://www.papurpawb.com/>) yn cael ei harchifo fel rhan  
bwysig o etifeddiaeth ddogfenol  
Cymru. Bydd felly ar gael at  
ddefnydd ymchwilwyr yn y dyfodol.

Clwb Nos Wener  
Gwilym Morus a  
Siwan Morus  
Penillion i'r Leri  
8.00 o'r gloch  
20 Tachwedd 2015  
Y Llew Du, Tal-y-bont  
Casgliad tuag at elusen



## Talwrn T Llew Jones

Llongyfarchiadau i dim talwrn Tal-y-bont a'r Cyffiniau, Anwen Pierce, Gwenallt Llwyd Ifan, Phil Thomas a Phil Davies ar ddod yn gydradd gyntaf mewn Talwrn a gynhaliwyd yn Y Morlan, Aberystwyth i ddathlu can mlwyddiant geni T. Llew Jones.

## Dathlu Penblwydd Arbennig

Penblwydd Hapus i Christine Jenkins, Bwthyn y Fron a gafodd benblwydd sbesial yn ystod y mis.

## Genedigaeth

Llongyfarchion i Hazel a Steve Crowther, Ty Coets, ar ddod yn famgu a thadcu newydd: fe annwyd mab bach, Arthur William, i'w merch Stevie Rhianon a'i gŵr Tyler sy'n byw yn Calgary, Canada.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr â Teresa, Raymond, Adrian, Neil a Keith ar golli ei mam, Ceri Hughes, 98 Maes-y-deri, gwraig y diweddar Dickie Dai. Roedd yn fam-gu a hen fam-gu annwyl. Trist oedd clywed am farwolaeth Josie Pryse, Bryncoed, Tal-y-bont, roedd yn ferch i'r diweddar Evan Hugh a Mary Elizabeth Pryse. Danfonwn ein cydymdeimlad at ei modryb Sadie a'i chyfnither Christine.

## Diolch

Dymuniad Jano Evans, 94 Maes y Deri yw diolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar ei phenblwydd arbennig

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddws â Mai a John Leeding, Glannant, Taliesin a'r teulu ar goll brawd Mai, Bill Evans, yn ddiweddar. Roedd Bill yn enedigol o Dre Taliesin ond yn byw ym Mhrestatyn. (gweler y deyrnged iddo)

## I Seland Newydd

Pob dymuniad da i Glyn Rhys Jenkins, Bwthyn y Fron, Tal-y-bont sydd am dreulio'r chw mis nesaf yn Seland Newydd.

## Enillydd cadair

Unwaith eto mis yma da yw cael llongyfarch Carys Briddon ar ennill cadair Eisteddfod Pumsaint am delyneg ar y testun 'Awel'. Garry Owen, BBC, oedd y beirniad, a tipyn o gamp oedd curu'r pymtheg roedd wedi cystadlu.

# Pobl a Phethe



## Yng nghast Les Miserables

Cafodd Geraint Howard brofiad bythgofiadwy o fod yn aelod o Gwmni Drama'r Urdd a berformiodd Les Miserables yng Nghanolfan y Mileniwm Caerdydd. Dyma fo yn y wasgod streipiog gyda Jordan Jones o Bow St.

## Cael bod yn rhan o gast Y Gwyll

I bobl sydd wedi bod yn gwyllo'r Gwyll ar S4C dros yr wythnosau diwetha falle i chi weld Eli Davies, Gwynfryn yn actio rhan merch fach rai wythnosau nôl. Er mai ym mis Chwefror ffilmwyd yr olygfa mae'r llun yn dod a'r holl brofiad cyffrous yn ôl i Eli. Yn y llun fel welir hi gyda'r actorion Richard Harrington a Mali Harries. Y cyffro mwy i Eli oedd cael siarad gyda, Mali Harries, sy'n actio Jini ym Mhentre Bach.



## Brysia wella

Pob dymuniad da i Megan Brickley, Tan-y-bryn, Taliesin sydd wedi brifo ei choes yn ddiweddar. Brysia wella Megan!

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Llŷr Jones, Ynystudur, Tre'r-ddôl ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar.

## Croeso i'r byd

Llongyfarchiadau mawr i Cynrig a Cathryn Lloyd-Williams, Min-y-gors, Taliesin ar enedigaeth eu mab, Mostyn Tegla, ar 31 Hydref - yn frawd bach i'w merch Cadi Wen.

## K Hughes

### Plymio a Gwresogi

Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129  
07761 917235

## Cymdeithas y Chwirydd

Ein gŵr gwadd yn y cyfarfod yn festri capel Rehoboth brynhawn Mawrth, 13 Hydref, oedd Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth. Teitl ei sgwrs oedd 'Y Melys Lais', sef yr enw a roddwyd i ddisgrifio'r tenor o Gymro, David Lloyd. Cafodd David Lloyd ei eni yn Nhrelogan, Sir y Ffint, yn 1912, a bu'n cystadlu ac yn enillydd cyson am ganu yn yr eisteddfodau. Enillodd ysgoloriaeth i fynd i'r Guildhall yn Llundain, ac yn 1934, dechreuodd astudio yno. Bu'n canu mewn nifer o operau, ac fel unawdydd yn Glyndebourn. Gwnaeth David Lloyd argraff fawr ar y byd cerddorol ar draws y byd, ac mae ei lais swynol i'w glywed ar nifer o recordiau. Yn ystod y prynhawn, clywyd ef yn canu aria o'r 'Magic Flute' a recordwyd gyda cherddorfa Saddler's Wells yn 1940; 'Annabel Lee'; 'Wyt ti'n cofio'r lloer yn codi', a charol Nadolig. Diolchwyd i Dr Rhidian Griffiths am brynhawn diddorol iawn gan Eirionta Metcalfe, a mwynhawyd te a chaccennau ar y diwedd wedi eu paratoi gan Ann Humphreys.

## Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 - 07721 786292

## Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

# argraffu da am bris da

## y Lolfa

holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

# Ysgol Tal-y-bont



FfotoAber



Archarwyr Tal-y-bont



Athletwyr trawsgwlad: Megan, Gethin, Tomos a Cai



Gweithgareddau LLESOL

# Priodas



Luned Gwyn a Matthew Phillips yn arwyddo'r gofrestr yng nghapel Bethel, Tal-y-bont, ar ddydd eu priodas ym mis Medi. (llun trwy garedigrwydd Whole Picture)



Y plant yn diolch i Wendy Foulkes am ei gwaith yn yr ysgol



Cymeriadau T. Llew Jones

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi  
**MYNACH**  
Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirunio a Garddio  
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:  
07792457816 / 01974 261758

e-bost:  
mynachhandyman@yahoo.com



Teigrôd Tal-y-bont



# Ysgol Tal-y-bont

## Trawsgwlad

Ar ddechrau mis Hydref aeth criw da o'r ysgol i gystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad cylch Aberystwyth ar gaeau Ysgol Penweddig. Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu ac yn arbennig i Cai, Megan, Tomos a Gethin am ddod yn y 10 cyntaf, ac felly'n cael cyfle i gynrychioli ardal Aberystwyth yng nghystadleuaeth rhanbarth yr Urdd yn y flwyddyn newydd.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol eleni yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont ar ddiwedd mis Hydref. Roedd hi'n hyfryd i weld yr eglwys yn llawn a chymaint o gynulleidfa'n cefnogi'r ysgol a llwyddwyd i greu naws arbennig yn ystod y gwasanaeth. Dymuniad y Cyngor Ysgol oedd y byddai casgliad y gwasanaeth yn mynd at elusen Macmillan ac mae'n braf nodi ein bod wedi casglu dros £70. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r plant am ddysgu eu gwaith mor arbennig, i'r staff am eu hyfforddi ac i'r ficer Peter Jones a swyddogion yr eglwys am baratoi ar ein cyfer.

## Gweithgareddau LLESOL

Mae gweithgareddau LLESOL wedi parhau yn ystod y tymor hwn gyda dau weithdy crochenwaith llwyddiannus iawn yn cael eu cynnal yn y Neuadd Goffa. Roedd cymaint â 50 o bobl wedi mynychu'r nosweithiau ac fe gafodd pawb y cyfle i greu tŷ tylwyth teg neu arwydd i roi ar ddrws ystafell wely. Diolch yn fawr iawn i Jenny Pain am gynnal y nosweithiau ac i Anwen Curran am drefnu'r gweithgareddau ac i'r staff am eu cefnogaeth i'r nosweithiau hyn. Y weithgaredd nesaf fydd sesiwn peintio ewinedd yn yr ysgol ac ar y 3ydd o Ragfyr rydym yn gobeithio cynnal noson bingo yn y Neuadd.

## Ysgol Eco

Y mae prosiect Cymerau wedi parhau yn ystod y mis gyda chwmni pypedau Vagabondi wedi bod yn cynnal nifer o weithdai pypedau ac animeiddio gyda dosbarth Miss Morris. Bydd ffrwyth y gwaith i'w weld mewn noson arbennig yn y Neuadd Goffa am 6 o'r gloch ar nos Iau 19eg o Dachwedd. Ar y noson bydd gwaith y plant yn cael ei ddangos ar ffurf ffilm ac mae croeso cynnes i bawb ddod i weld y gwaith.

## Staffio

Yn anffodus, bu'n rhaid i ni ffarwelio gyda Wendy Foulkes yn ystod y mis sydd wedi ein gadael am swydd gyda'r optegydd Clive Williams yn Aberystwyth. Hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i Wendy am ei gwaith dros y blynyddoedd diwethaf a dymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd gan obeithio'n fawr y gwelwn ni hi yn cefnogi gweithgareddau'r ysgol eto yn y dyfodol agos.

Llongyfarchiadau mawr i Karren Roberts am gael swydd fel arweinydd y Cylch Meithrin ond rydym yn falch iawn y bydd Karren yn parhau gyda ni yn rhan amser.

Hoffwn i estyn croeso cynnes i Claire Jones atom fel cynorthwydd gweinyddol yr ysgol hefyd gan obeithio y bydd hi'n hapus iawn yma gyda ni yn Nhal-y-bont.

## Siaradwyr Cymraeg

I gyd-fynd gyda Diwrnod Shwmae / Sumae, penderfynodd aelodau'r Cyngor Ysgol i hybu siarad Cymraeg yn yr ysgol trwy wobrwyo plant am ymdrechu i siarad Cymraeg. Llongyfarchiadau mawr i Ynyr, Lauren, Finley, Sean, Brandan, Lewys ac Evan am gael eu dewis fel siaradwyr Cymraeg yr wythnos a diolch yn fawr i Siop SPAR y pentref am gydweithio gyda ni ar y syniad yma.

## FfotoAber

Llongyfarchiadau mawr i Ynyr Siencyn a Miriam Davies ar gael eu ffotograffau wedi eu harddangos fel rhan o gystadleuaeth blynyddol FfotoAber i ysgolion. Bydd y lluniau i'w gweld yng Nghanolfan Arad Goch am rai wythnosau yn ystod mis Tachwedd, felly ewch draw i'w gweld. Llongyfarchiadau mawr i Miri am ddod yn ail yn y gystadleuaeth i blant ysgolion cynradd.

## Cofio T. Llew Jones

Roedd eleni'n flwyddyn bwysig iawn o ran cofio cyfraniad yr awdur poblogaidd T. Llew Jones. I ddathlu'r achlysur, fe wnaethom wisgo fel rhai o gymeriadau poblogaidd T. Llew Jones ac roedd hi'n braf i weld yr ysgol yn llawn o fôr-ladron a lladron pen-ffordd eleni eto.

## Hola

Fel rhan o ddathliadau Patagonia 150, bu Cwmni Theatr Arad Goch yn teithio o gwmpas Cymru gyda sioe newydd sbon i'n helpu ni heddiw i ddeall mwy am yr antur o groesi môr yr Iwerydd a sefydlu gwladfa Gymreig yn Yr Ariannin. Cafodd y sioe ei pherfformio yng Neuadd Uppington, Borth ac roedd hi'n braf iawn cael cyfle i gwrdd â ffrindiau o Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Llangynfelyn wrth wyllo'r sioe.

## Diwrnod Gwisgo fel Archarwyr Cyfnod Sylfaen Tal-y-bont

I gloi ein thema 'Archarwyr', cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i wisgo fel eu hoff archarwr. Cawsom bicnic yn yr ardal allanol a chyfle i wneud masgiau archarwyr cyn chwarae gemau parti. Roedd hi hefyd yn ddiwrnod olaf y plant gyda Mrs Foulkes cyn iddi ddechrau ar ei gyrfa newydd. Diolch yn fawr iddi am ei holl waith caled yn ystod ei chyfnod yn y dosbarth ac am yr anrhegion hael i'r dosbarth. Byddwn yn gweld eich eisiau'n fawr!

## Chwarae teg am chwarae'n deg

Ar ddiwedd y tymor pêl-droed diwethaf aeth Teigrod Tal-y-bont i chwarae mewn pencampwriaeth a drefnwyd gan Glwb Pêl-droed Felin-fach. Wedi diwrnod brwd o gystadlu, cyhoeddwyd bod y Teigrod i chwarae gêm yn y rowndiau cynderfynol, ond wrth i'r hyfforddwyr, Mark a Chris, baratoi'r bechgyn gwelwyd un o'r trefnwyr yn rhedeg at y bechgyn ac esbonio fod camgymeriad wedi digwydd a bod tîm arall wedi ennill mwy o bwytiau. Er gwaethaf siom amlwg y bechgyn, ni chlywyd neb yn cwyno na neb yn bod yn ddig. Ychydig wythnosau nôl, cyrhaeddodd tarian arbennig Ysgol Tal-y-bont i gydnabod agwedd iach y bechgyn – Tarian Chwarae Teg y bencampwriaeth. Da iawn fechgyn, gallwch ennill drwy golli weithiau!

# Ysgol Sul Bethel

'Llund powlen o gynhaef' oedd testun diolch yr Ysgol Sul eleni yn y gwasanaeth Diolchgarwch ar fore Sul, 18 Hydref. Diolchwyd am y gwahanol rawnfydydd yr oedd nifer yn eu mwynhau i freccast ac am y rhai a oedd yn eu tyfu a'u paratoi ar gyfer y bwrdd bwyd. Diolch i Becca, Bedwyr, Betsan, Ela, Eli, Gethin, Glain, Lleucu a Rhodri am ymarfer a dysgu eu darnau llefaru a chanu gyda graen. Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Croesawyd Mr Chris Lockley i'r gangen ar 19 Hydref. Bu Mr Lockley yn Bennaeth Cerdd, yn Athro Chwythbrennau Teithiol ac yn Drefnydd Cerdd Ceredigion ac felly doedd hi ddim yn syndod mai cerddoriaeth oedd ei destun. Ar y thema 'Dwr', aethpwyd â'r aelodau ar daith gerddorol o amgylch y byd heb symud o'u seddau.

Fe swynwyd pawb gan y gerddoriaeth offerynnol a lleisiol, yn hen ac yn gyfoes gan gyfansoddwyr gwahanol. Mawr yw ein diolch i Mr Lockley am noson wreiddiol, addysgiadol ac mor bleserus i'r glust.

## Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

### Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- .... a rhagor



[papurpawb.cymru](http://papurpawb.cymru)

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Hydref.

### 1. Binau Halen Glanrafon

Cytunwyd i osod draenio ar y tir. Adroddodd y Cyngorydd Emyr Davies fod y gwaith draenio wedi'i gwblhau, a bod y gweithwyr wedi hadu'r tir a thorri sietyn yn ôl.

### 2. Parc Bont-goch

Adroddodd y Cyngorydd David Evans ag Emyr Davies eu bod wedi mynychu cyfarfod gyda Siôn Pennant a a grŵp lliwio Parc Bont-goch, pennaeth safle Dŵr Cymru ym Mont-goch, ag eraill, i drafod y gwaith ar y parc newydd ger y gwaith dŵr. Cytunwyd i osod draenio ar y tir. Adroddodd y Cyngorydd Emyr Davies fod y gwaith draenio wedi'i gwblhau, a bod y gweithwyr wedi hadu'r tir a thorri sietyn yn ôl.

### 3. Tocio Coed & Niwed ar y Ffordd ym Mont-goch

Cysylltodd aelod o'r gymuned â'r Cyngor i ofyn am arweiniad ynglŷn â phroblemau ar ffordd Bont-goch. Disgrifwyd fod y coed yn tyfu allan o reolaeth ar hyd y ffordd o Dalybont i Bont-goch a bod cerbydau a lorïau yn gorffod cadw i'r ochor draw i arbed difrod i'w heiddo. Cytunwyd i ddanfon llythyr at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

### 5. Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion – Ymestyn:

#### Mynd yn ddiigidol

Mae cwrs 5-wythnos am ddim, "Mynd yn ddiigidol" yn cael ei rhedeg gan Ymestyn ym Mhenparcau. Mae'r prosiect wedi ei anelu at bobl gyda phroblemau iechyd ac iechyd meddwl, sy'n ddi-waith neu'n dros 55 oed. Cysylltwch â 01437 753139 neu [community@pembrokeshire.ac.uk](mailto:community@pembrokeshire.ac.uk)

### 6. Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion – Ailgylchu Eitemau Trydanol Bychain

Ar ddiwedd mis Mai 2015 cynhaliodd Tîm Ailgylchu a Gwastraff Cyngor Sir Ceredigion ddiwrnodau yn Aberystwyth i gasglu eitemau trydanol bychain er mwyn eu hailgylchu. Maent wedi penderfynu ehangu'r cynllun gan ofyn i aelodau'r gymuned am help a chefnogaeth i geisio trefnu diwrnodau eraill. Os ydych am

gynnal diwrnod ailgylchu eitemau trydanol, cysylltwch â Mererid Jones: 01545 57257 / [hpw@ceredigion.gov.uk](mailto:hpw@ceredigion.gov.uk)

### 7. Gohebiaeth: Tyfy'n Wylt – Cyllid ar gyfer Prosiectau Cymunedol

Mae gwahoddiad i fudiadau a grwpiau cymunedol ledled Cymru wneud ceisiadau am arian rhwng £1,000 a £4,000 gan Tyfy'n Wylt. Maent yn chwilio am brosiectau sy'n defnyddio blodau a phlanhigion gwyllt brodorol mewn ffordd wahanol i ddod â lliw a bywyd gwyllt i'w hardal leol. Am fwy o wybodaeth ewch i <https://www.growwilduk.com/cy/prosiectau-cymunedol>, neu cysylltwch â Maria Golightly: [m.golightly@kew.org](mailto:m.golightly@kew.org) / 07917 266445.

### Gohebiaeth: Cynnal y Cardi – Lansio Prosiectau Lleol

Mae cyfle i gael cyllid wedi cael ei lansio gan Cynnal y Cardi ar gyfer unigolion, busnesau neu sefydliadau lleol sydd â syniadau sy'n gweddu a'i meini prawf. Am fwy o wybodaeth cyflawn, cysylltwch â thim Cynnal y Cardi ar [cynnalcardi@ceredigion.gov.uk](mailto:cynnalcardi@ceredigion.gov.uk) neu ffoniwch 01545 572063.

## Cylch Meithrin Tal-y-bont

Ar fore braf cyn hanner tymor aeth criw y Cylch Meithrin am dro o amgylch Allt-y-Crib. Casglwyd dail hydrefol a chnau amrywiol ar y daith cyn ymlacio a chael picnic yn edrych i lawr ar yr holl bentref.

Cynhaliwyd Parti Calan Gaeaf i blant yr ardal ar nos Sadwrn, 31 Hydref a hyfryd oedd gweld y Neuadd Goffa yn llawn creaduriaid rhyfedd eu golwg ac yn fwrwm o sŵn! Wedi bwyta'r cŵn poeth a mynd o amgylch y gwahanol stondinau cafwyd cystadleuthau y gwisg ffansi orau i flynnydoedd ysgol a hŷn ynghyd â'r bwmpen orau. Yna fe fuodd dawnsio, dawnsio, dawnsio gyda'r disgo! Diolch i'r rhieni hynny wnaeth helpu gyda'r paratodau o flaen llaw yn ogystal a helpu gydag addurno'r Neuadd a chymryd at y gwahanol ddyletswyddau yn ystod y noson. Llwyddwyd i godi dros £300 ar gyfer y Cylch Meithrin – diolch enfawr i bawb a wnaeth gefnogi'r noson.

Dyddiad ar gyfer y calendr – bydd Cyngerdd Nadolig a Noson

# Hoffech chi DDIOD AM DDIM?

Dewch i Gaffi Cletwr yn Siop Cynfelyn yn ystod mis Tachwedd gyda'r tocyn isod a mwynhewch banad o de neu goffi Americano bach AM DDIM!



Dewch â'r tocyn hwn i Gaffi Cletwr a chewch hawlio panad o de neu goffi Americano bach AM DDIM. Dilys hyd 30 Tachwedd 2015.

Goffi'r Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar nos Lun, 14 Rhagfyr am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa, Tal-y-bont. Pris mynediad fydd £3.00. Bydd y plant bach yn perfformio'r stori'r geni a chewch gyfle i fynd o amgylch y gwahanol stondinau tra'n mwynhau paned a mins pei! Dewch yn llw – croeso cynnes i bawb!

## Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cafwyd trafodaeth hir am y bwriad i gau'r ysgol ac anfonwyd llythyr o wrthwynebiad at Gyngor Ceredigion. Mae'r cyfrifon am y flwyddyn 2014/2015 wedi eu derbyn, eu harchwilio a'u cadarnhau'n gywir.

Mae gwefan y Cyngor Cymuned yn awr yn weithredol er mwyn i'r gymuned ymweld â hi.

Codwyd cwestiynau gyda Chaerdydd ynglŷn â chyflwr Eglwys Llangynfelyn a'i chynhalieth yn y dyfodol.

Mae'r gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau cyhoeddus wedi ei gwblhau.

Mae ysbwriel wedi ei adael yn ymyl y Ffynnon a'r llwybr ati yn Nhaliesin, a rhoddwyd gwybod am hyn i Gyngor Ceredigion.

Cadarnhawyd bod yn awr ddau ddeffibrilwr yn y gymuned.

Rydym yn dal i bwysu ar y Cynulliad a Chyngor Ceredigion am y gwaith arfaethedig sydd i'w wneud ar ein ffyrdd.

## Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

A hithau nawr yn fis Tachwedd, mae rhaglen Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn wedi hen ddechrau.

Ar Fedi 29ain, cawsom sgwrs gan Dr Heather Williams o'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig

a Cheltaidd yn Aberystwyth. Un o'i diddordebau yw sut oedd teithwyr o gyfandir Ewrop yn gweld â Chymru yn ystod y ddau gan mlynedd diwethaf. I'w llygaid soffistigedig nhw, yr oedd Cymru yn ymddangos yn hen ffasiwn, os nad cyntefig. Gobeithio bod pethau wedi gwella erbyn hyn!

Ar Hydref 20fed, daeth Dr Richard Ireland i siarad am hanes trosedd a chosb yng Nghymru, y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr yn ôl y ddeddf, a'r ddehongli'r gyfraith ar lawr gwlad, Nid oedd rheithgor o Gymry, neu werin Cymru, bob amser yn gweld troseddau cymdeithasol yn yr un golau a'u meistri yn Llundain.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Tachwedd 24ain, pan fydd yr Athro Geraint Jenkins yn sôn am 'Doc Tom', Dr Thomas Richards o Dre'r-ddôl, awdur, ymysg lawer o lyfrau eraill, 'Atgofion Cardi' a 'Rhagor o Atgofion Cardi'. Bydd y noson, fel arfer yn Llanfach, Taliesin am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

*Rhian*  
trin gwallt gartref  
25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

**James Memorials**  
Am  
GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU  
Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim  
James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

## Gwobrwyo Grŵp Cymraeg y Flwyddyn: Datblygu defnydd o'r Gymraeg yn Siop Gynfelyn




Brian Davies, Sylvie Fombonne, Karen Evans a Lowri Jones

Fe dderbyniodd y criw hapus yma y wobwr o £100 oddi wrth yr Athro April McMahon wrth iddi hi ddathlu llwyddiant dysgu am oes mewn seremoni yn Aberystwyth yn ddiweddar.

Ers cynnal Cwrs Cymraeg byr i wirfoddolwyr y siop yn 2014 mae digwyddiadau ymarferol wedi datblygu ers hynny. Cynhelir sesiwn misol o baned a sgwrs, **Dal Ati**; mae **Amser Stori** bob bythefnos yn boblogaidd gyda phlant a rhieni ac yn fisol ar Nos Iau bydd dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn dod i wyllo dvd o ffilm neu raglen Gymraeg.

Un brwd o'r grŵp yw Sylvie ac fe ddywed mewn Cymraeg rhugl, "Y peth pwysicaf i fi wrth fod yn rhan o'r digwyddiadau i ddysgwyr Cymraeg (yn ogystal â bod yn wirfoddolwr yn y siop) yw darganfod faint o bobl leol sydd mewn gwirionedd yn gallu siarad Cymraeg. Achos fy acen Ffrangeg, yn Saesneg yn unig roedd pobl yn siarad â mi. Ond nawr rydym yn siarad Cymraeg."

**Bistro  
Gannets**



**Bwyd a Gwin Da**  
7 St James Square, Aberystwyth  
**617164**  
Ar agor Llun i Sadwrn  
12-2 a 6-9.30

## Hadau Ceredigion

Mae Hadau Ceredigion yn dilyn Owain Llŷr ar grwydr trwy Geredigion, yn dod i nabod y sir a rhai o'i golygfeydd a'i thrigolion hynotaf. Dyma gyfrol sy'n llunio portread difyr mewn llun, gair a ffeithiau o rai o drigolion, lleoliadau, traddodiadau ac, yn arbennig, hanes Ceredigion.

Fel un o ddyffryn Teifi roeddwn wedi ymgolli yn y testun o'r bennod gyntaf gan i'r awdur gyfeirio at Gwmwd Gwynionydd o gwmpas Llandysul.


Cawson ein hatgoffa taw dyna ardal Elen, mam Owain Glyndwr (sy'n esbonio pam mai gwŷr Llandysul oedd y cyntaf i ymrestru ym myddin Owain yn ei frwydr dros ryddid ei wlad).

Mae'r awdur wedi defnyddio ei luniau ei hun o gymeriadau a lleoliadau Ceredigion, y mwyafrif o waelod a chanol y Sir. Yn naturiol, ni fydd y lluniau yn cyrraedd safon rhai ffotograffwyr proffesiynol, ond mae'n gartrefol iddynt a rhyw agosatrwydd at y gwrthrych sy'n gweddu i'r dim i arddull yr ysgrifennu. Cawn gip ar y cymeriadau hynny sydd yn eu gwaith a'u cymdeithasu yn sicrhau taw gymuned fyw ac nid amgueddfa yw Ceredigion.

Heblaw am y lluniau a'r capsionau difyr, buasai testun y gyfrol yn dal ei dir fel cofnod hynod ddifyr a chryno o hanes Ceredigion ar hyd yr oesoedd. Fe lwyddodd yr awdur i ymdrin â'r unigolion sydd 'wedi llunio ein naratif, cymeriadau nodedig a gyfrannodd at gymdeithas y sir' ond gan osod hynny yng nghyd-destun hanes yr oes

Ceir llyfryddiaeth fanwl hefyd yn y cefn ar gyfer y rhai sydd â'r awydd i bori ymhellach yn y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan yr awdur.

*Phil Davies*



Owain Llŷr  
Clawr Meddal  
Y Lolfa  
£14.99

## O'r Cynulliad – Hydref 2015

Yn ystod mis Hydref, roedd hi'n braf iawn cael croesawu Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban, i Geredigion wrth iddi ymweld â chynhadledd Plaid Cymru yn Aberystwyth.

Dyma'r tro cynta iddi ddod i Geredigion, a chefais gyfle i ddangos rhywfaint o Aberystwyth iddi, ac hefyd i son am ein Gwasanaeth Iechyd a'r angen i gadw gwasanaethau'n lleol, a hithau'n parhau i fod a diddordeb mawr ym maes iechyd ers iddi fod yn Weinidog Iechyd yn Llywodraeth yr Alban. Roedd yn gynhadledd yn sicr yn un bywiog a chadarnhaol, a da hefyd oedd cael cadarnhad yn ystod y gynhadledd o ddewis Dafydd Llywelyn, y darlithydd criminoleg o Landysul, fel ymgeisydd y Blaid ar gyfer etholiad comisiynydd Heddlu Dyfed Powys y flwyddyn nesa. Edrychaf ymlaen yn fawr at gydweithio ag ef.

Yn gynharach yn y mis, cefais gyfle i draddodi darlith oedd yn gosod allan syniadau newydd ar gyfer diwygio gofal i'r henoed a'r rheiny sy'n diodde o dementia. Yn hanesyddol, mae rhan rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Os caiff rhywun ddiagnosis cancr, gallant ddisgwyl cael y rhan fwy o'u gofal am ddim, ond nid felly yn achos rhywun â dementia, fyddai o bosib yn talu am ofal am ei fod yn cael ei ddiffinio fel gofal cymdeithasol. Hoffwn weld y rhan yma'n diflannu o fewn degawd, fel y medrwn integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn, a sicrhau tegwch i bawb o ran gofal.

O ran tegwch i'r henoed, mae ymgyrch 'Wythnos Fawr Arbed Ynni' Cyngor Ar Bopeth yn un sy'n haeddu sylw, a da oedd cael croesawu'r mudiad i Aberteifi ar gyfer eu lansiad. Amcan yr ymgyrch yw rhoi cymorth i bobl, yn enwedig pobl oedranus, i siopa am y fargen orau ar danwydd, gan gynnwys helpu'r rhai niferus sydd oddi ar y grid nwy i gael pris teg trwy gynlluniau cyd-brynu cymunedol. Yn aml dyw pobl ddim yn sylweddoli faint y gallasant ei arbed trwy siopa am y fargen orau, a'r camau bach y gellid eu cymryd i leihau ynni – er lles yr amgylchedd ac er lles poced y Cardif!

*Elin Jones A.C.*



Elin Jones a Nicola Sturgeon



**HUW LEWIS**



**Glanrafon**

**Teiars  
Aliniad Olwyn  
Ecsôsts  
Batris  
Brêcs  
Hongiad  
Bar tynnu  
Gwasanaeth  
MOT**

**HUWLEWISTYRES.COM**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwith â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  
**ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000  
LLANBED 01570 422221**



**Rhodfa'r Parc**

## Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.  
**Ar agor bob dydd**

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00  
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50  
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**  
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**  
garethwhitelion@outlook.com



# Yr Awen yn Llifo

## Taith Gerdded Gerddorol

Ddechrau Hydref, cyrhaeddodd neges e bost acw yn hysbysebu taith gerdded gerddorol yng nghwmni Gwilym Morus y darlithydd, y chwedlologgydd a'r cerddor ar ddydd Sadwrn, Hydref 10fed. Wel, dyna wahanol, meddaf fi wrth fy hun, dwi wedi bod ar sawl taith gerdded ond erioed un gerddorol. Y cyfarwyddiadau yn yr e-bost oedd cyfarfod ar y bont ym Mont-goch am 10 y bore ac yno y cyrhaeddais yn brydlon!

Roedd yn fore oer ond sych, perffaith ar gyfer taith gerdded i'r criw bychan a fentrodd allan.

Roedd y daith gerdded yn rhan o

gywaith 'Penillion i'r Leri' a'r bwriad oedd mynd i darddiad yr afon Leri er mwyn ysgogi a sbarduno yr awen farddonol.

Bu trafod a sgwrsio ar y daith i fyny i gyfeiriad Craig y Pistyll ac yno cafwyd hoe i wrando ar Gwilym yn canu geiriau o waith Carys Briddon i gyfeiliant ei gitar gyda siffrwd y gwynt trwy'r coed yn gefndir.

Ar y ffordd i lawr cafwyd cyfle arall i wrando ar lais Gwilym y tro hwn yn canu geiriau o waith Bledwyn Huws. Bydd taith gerdded arall ar hyd yr afon Leri yn cael ei threfnu cyn bo hir gan Gwilym, da chi, peidiwch a cholli cyfle i fynd arni.

Fayri Jenkins

## GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI  
GWASANAETH GOLCHI  
DWFES MAWR  
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES  
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth SY23 3SL



## AR LAN Y LERI

Mae'n bleser gennym eich gwahodd i Noson Gymdeithasol: Siop Siarad Yn yr eglwys ym Montgoch: Elerch. Am 7.00 yh 3ydd o Ragfyr

I rannu gwydr o win neu dŵr, gwrandao ar gerddoriaeth a chasglu straeon.

Mae Gwilym Morus Baird a Jane Lloyd Francis yn creu siwrnai lawr yr Afon Leri, i'w adrodd yng ngherddoriaeth, barddoniaeth a rhyddiaith. Mae angen eich straeon arnom - o'r afon, ei ffinonellau, isafonydd, llifogydd, trolfogydd ac amgylchiadau - i'w gwau i mewn i'r gwaith hwn.

Hawlfraint © Gwerin (www.gwerin.com) 2005 - 2015. Cedwir pob hawl.

Gall y straeon dod o'r gorffennol neu arwain at y dyfodol, bod yn bersonol, chwedlonol neu wedi ei dyfeisio. Gwahoddir gwesteion hyddysg arbennig i helpu sbarduno ac ysbrydoli ein trafodaethau.

Mae popeth yn ymwneud a dŵr.  
Ymunwch â ni os rydych yn gallu.

Am fwy o wybodaeth, ewch at [www.cymerau.org](http://www.cymerau.org)



hydrocitizenship

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion  
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Bocses a bubblewrap ar lein  
[www.boxshopsupplies.co.uk](http://www.boxshopsupplies.co.uk)

Ffôn: 01654 703592  
[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BLODDODDWR  
IN PEOPLE | MEWN POBL

# S4C



35 DIWRNOD

9.00

Bob nos Sul

Rhyw, twyll, a throesedd...  
diwrnod arferol o waith.

Noddir gan



#35Diwrnod  
[s4c.cymru](http://s4c.cymru)



# Ysgol Llangynfelyn

## Sbri-di-ri

Aeth Dosbarth Mrs Nemes i Ysgol Penglais gyda chriw mawr o blant bach ardal Aberystwyth i weld Sioe Sbri-di-ri yng ngofal y gantores Gwenda Owen. Mwynhaodd y plant gwrdd â Sali Mali, Mïstar Urdd a Dewin a chael cyfle i ddawnsio a chanu.



## Clwb y Coed

Daeth ein Clwb y Coed i ben cyn hanner tymor gyda pharti arbennig. Bu'r plant yn dysgu am 'milltiroedd bwyd' a pha fwydydd sy'n cael eu tyfu'n lleol a pha rai sy'n cael eu cludo'n bell iawn. Buont yn coginio amryw o fwydydd blasus tu allan ar y tân. Diolchwn yn fawr iawn i Jenny Dingle a'r rhieni sydd wedi gwirfoddoli yn y Clwb. Bydd y Clwb yn ail-ddechrau yn nhymer yr haf.

## PC Alun

Daeth PC Alun Jones i'r ysgol i gynnal sesiynau am ddiogelwch gan gynnwys e-ddiogelwch gyda'r plant. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn dysgu am archarwyr go-iawn yn y gymuned yn ystod y tymor a braf iawn oedd gweld PC Alun ein harcharwr ni yn yr ysgol.



## Ymweliad Ysgol Anfield Road

Daeth 26 o blant a phedwar aelod o staff o Ysgol Anfield Road, Lerpwl atom am ymweliad. Dyma'r ail dro iddynt ddod i'n gweld ni. Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn a bu'r plant allan am rhanfwyaf o'r prynhawn yn chwarae yn y coed ac yn casglu mwyar duon. Cafwyd sesiwn sgiliau rygbi gyda Bryn MacGilligan Oliver a braf iawn oedd gweld y plant o'r ddwy ysgol yn cymdeithasu ac yn cyd-chwarae. Cyflwynwyd anrhegion i'r plant ac rydym yn edrych ymlaen at fynd nôl i weld y plant a'u hathrawon yn Lerpwl yn yr haf.

## Diwrnod T. Llew Jones

Dathliwyd Diwrnod T. Llew Jones a chanmlwyddiant geni T. Llew yn yr ysgol gyda'r plant wedi gwisgo fyny fel cymeriadau o'i lyfrau. Bu'r plant hyn yn gwrandao ar rai o'i storiâu tra bu'r plant bach yn dysgu am 'Twm Siôn Cati'. Ar ddiwedd y dydd aeth plant y Cyfnod Sylfaen draw i Siop Cynfelyn i wrando ar stori gyda Mr Brian Davies. Diolchwn yn fawr iawn iddo am ei rodd caredig o lyfrau Cymraeg i'r plant lleiaf.

## Trawsgwlad

Aeth dosbarth Mrs Evans i gyd i gaeu Ysgol Penweddig i gymryd rhan yng nghystadlaeuath trawsgwlad ysgolion cynradd ardal Aberystwyth. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt i gyd am gymryd rhan yn enwedig disgyblion Blwyddyn 3 ar eu tro cyntaf yn rhedeg trawsgwlad yn gystadlaeuol.

## Ymweliad ag Ynyslas

Aeth pawb draw i Ynyslas am fore hyfryd yng nghwmni Leigh Denyer o Gyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y sesiwn yn rhan o 'Wers fwyaf y byd' sy'n ymgrych i ddsygu plant y byd am gynaliadwyedd. Dysgodd y plant am y gadwyn fwyd, tîrweidd y twyni tywod ac am yr anifeiliaid a'r planhigion yn eu cynefinoedd naturiol. Uchafbwynt y bore oedd creu siarcod mawr yn y tywod.

## Casglu mês

Daeth Swyn Spencer o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r ysgol i'n tywys o gwmpas coed Fferm Dolclettwr tu ôl i'r ysgol. Bwriad y bore oedd casglu mês. Bu'r plant yn lwcus iawn i gael y cyfle i ddsygu am y coed derw brodorol sydd ar dir yr ysgol. Casglwyd dau gilo o fês a bydd y mês yn cael eu dosbarthu i feithrinfa goed i'w tyfu mewn i goed mês bach newydd. Diolchwn yn fawr iawn i deulu Dolclettwr am ganiatâd i fynd i'r coed.



## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cafwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn yr ysgol eleni. Bu'r plant yn adrodd, canu a chwarae offerynnau cerdd i gynulleidfa o ffrindiau a rhieni. Gwnaethpwyd casgliad tuag at apêl y ffoduriaid. Ffarweliwyd a Mrs Siwan Evans yn y gwasanaeth gan ei bod yn dechrau ei chyfnod mamolaeth. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddi hi ag Elgan. Ffarweliwyd hefyd gyda Miss Wendy Foulkes ar ôl 10 mlynedd yn yr ysgol. Cyflwynwyd llun hyfryd iddi i ddweud diolch. Ni fyddwn yn ffarwelio yn gyfan gwbl, gan y bydd Miss Foulkes yn dal i gasglu'r arian cinio. Croesawyd Miss Catrin Hughes i'r ysgol. Bydd Miss Hughes yn dysgu Dosbarth Mrs Evans yn ystod ei chyfnod mamolaeth. Gobeithwn y bydd Miss Hughes yn hapus iawn yma.

## Priodas

Ar ddydd Gwener Hydref 31ain priododd Miss Cerys Jenkins, cymorthydd, a Mr Liam Gower yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig i'r pâr ifanc a hyfryd iawn oedd gweld cymaint o blant yr ysgol yn dymuno'n dda iddynt ar y diwrnod. Llongyfarchiadau mawr iawn i Mr a Mrs Gower-Jenkins.



## Parti Tân Gwylt

Mae ein parti tân gwylt yn draddodiad yn yr ysgol ers sawl blwyddyn bellach a chafwyd parti arbennig o dda eto eleni gyda dros 200 o bobl yn dod. Diolchwn yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r noson, i Mrs Linda Hicks am goginio'r cawl blasus ac i gwmni Hayes Mackensie am noddi'r noson. Roedd yn hyfryd iawn gweld cymaint o bobl o'r gymuned yn yr ysgol yn ein cefnogi. Aeth elw'r noson at Apêl y Ffoduriaid.



## Bags2school

Bydd ein casgliad nesaf yn mynd o'r ysgol ar fore Ddydd Llun Tachwedd 23ain. Mae croeso i chi adael unrhyw gyfraniadau yn yr ysgol. Rydym yn medru derbyn: dillad dynion, menywod a phlant, esgidiau, bagiau, hetiau, sgarffiau, teis, dillad isaf, beltiau a theganau meddal. Yn anffodus nid ydym yn medru derbyn: dillad gwely, blancedi, clustogau na gobenyddion, carpedi a matiau, llenni, tywelion, gwisg ysgol, darnau o ffabrig neu wllân.

## Sioe Nadolig

Dyddiad pwysig: Ein Sioe Nadolig – Robin Hood – Nos Fercher Rhagfyr 2il yn Neuadd Llanfach am 6 o'r gloch.

# Teyrngedau

## Cofio Cyfaill

Gan fod salwch wedi fy rhwystro rhag teithio i gapel Rehoboth, Prestatyn, Iau 22 Hydref, i ymuno gyda theulu fy nghyfaill oes, **William Richard Evans** – Bil Sea View, Taliesin – i ddiolch i'r Creawdwr am ei fywyd a'i lafur, da cael y cyfle hwn i deyrngedu iddo. Daw'r cwpled, 'Nid yw nef ond mynd yn ôl/Hyd y manau dymunol', i'm cof wrth feddwl am gyfeillgarwch Bil Sea View a Bil Stryd Isa. Roedd Bil, Harri, Noddfa a Dafydd, Troed y Fedwen ac eraill yn y criw fyddai'n cicio pêl a defnyddio drws y brodyr Lloyd Brynhyfryd fel gôl, crwydro'r figyn a helpu'n mamau i gario mawn oddiyno, dringo i ben y Graig Fawr ac ymaflyd codwm gyda'n mêts o Dre'r-ddôl y tu draw i gwrnt tenis Ysgol Llangynfelyn – yr unig gwrnt rhwng Aberystwyth a Machynlleth ar y pryd.

Roedd Nesta chwaer hynaf Bil fel chwaer fawr yn gofalu amdanom, wrth fynd a dod i'r ysgol a byddai hi, Bil a Mai y chwaer iau yn ymweld â'u tad-cu a'u mam-gu, William (o Langwryfon) ac Elizabeth (o'r plwyf) y drws nesaf i ni yn 3 Terrace Row. Pan oera'i tywydd byddai William yn dweud wrth 'nhad – 'Tom rwy'n teimlo hen snêr oer'. Wedi marw'i briod byddai mam yn paratoi cinio Sul i'r tad-cu a Iorwerth a minnau'n mynd ag ef iddo bob yn ail a chael yr hen ddarn tair ceiniog gan yr hen w'r mwyn. Rhieni Bil a'i chwiorodd oedd Ieuan mab ieuengaf yr hen gwpl diddan a phriododd â Gladys o deulu mawr Griffithsiaid Cwm Tŷ-nant. Pan agorwyd cegin Ysgol Llangynfelyn yn 1945 Gladys, gyda chymorth Anni Lisi Jones, Tre'r-ddôl, oedd yn paratoi'r bwyd blasus inni.

Yr unig le y byddai Bil a minnau ar wahân oedd y capel er mawr ofid i mi ddoe a heddiw. Plant Soar y Wesleaid yn Nhrêr-ddôl oedd plant Sea View a minnau'n mynychu capel Presbyteriaidd Rehoboth yn Nhaliesin. Byddem yn llwyddo'n gyson yn arholiadau'r ddwy ysgol Sul ac yn derbyn tystysgrifau a drysorwn o hyd. Ar brynawn Gwener y Groglith byddem yn cwrdd yn ymyl y Llan Fach wrth inni orymdeithio y tu ôl i faneri lliwgar cyn cael te parti wedyn.

Bu Bil 'yn gyfaill ym mhob gofyn' imi ac yn arbennig wrth geisio dygymod ag awrygylch estron a seisnig Ardwyn ag yntau yno fwyddyn o'm blaen. Ac un felly ydoedd gyda'i deulu, ei gyfeillion a'i gydweithwyr, a phob amser yn hwyliog a heulog gyda'i gyfarchiad pan gyfarfyddem 'Sut wyt ti was?' Buom yn byw yn y Bala am gyfnod, fi yng Ngholeg Lewis Edwards ac yn lletya gydag Annie gweddwr canwr penillion a'r dawnsiwr gwerin Caradog Pugh, a'i merched Beti a Carys; a Bil yn y Banc ac yn aros y drws nesaf gyda Mrs Roberts. Roedd yno hefyd fyfyrwr fel ffinnau ac un oedd gyda Bil oedd y diweddar Barchedig John Pinion Jones.

Y peth pwysicaf ddigwyddodd i Bil yn y Bala oedd cwrdd ag Anne, ei phriodi, magu teulu, a chyd-wasanaethu capel a chymuned yn enwedig ym Mhrestatyn lle roedd Bil yn Reolwr Banc ac Anne yn athrawes ardderchog. Bu Bil yn flaenor a thrysorydd Rehoboth, yn gefn i bob gweinidog ac yn llawenhau fy mod innau'n bugeilio'r praid. Ei weinidog, y Parchg Brian Huw Jones oedd yn arwain y gwasanaeth angladdol gyda'r cyn-weinidog y Parchg. Ieuan Lloyd yn darllen a chyflwyno rhan o 'Gŵyl Ddiolchgarwch', John Werndeg. Cyflwynwyd teyrnged gan nai Anne, Dr Robin Davies. Roedd y Parchg Wyn Morris gweinidog Mai a John yn bresennol. Wrth ddiolch am fy nghyfaill Bil Sea View, bydded i Anne, Huw ac Alison, Gwawr a Jon, yr wyron Dafydd, Ffion, Gareth ac Osian, a Mai a John, brofi o Dangneffed Duw.

*Bil Stryd Isa*

## Glenys Ann Edwards

Pererindod yw bywyd, mae na ddechrau a diwedd. Ganwyd Glenys yn Ysbyty Llundain yn Whitechapel ar 12fed o Chwefror 1938 yn ferch i David Iorwerth ac Annie Gwen Evans, Powell's Dairy, 224 Bow Road, E3. Fe'i bedyddiwyd yn Eglwys Presbyteriaidd Cymru Mile End, ble roedd y teulu yn aelodau.



Ar ddechrau 1939 symudodd y teulu i siop yn Salem Coedgruffydd ac ymhen blwyddyn symud i Walsall Stores, Talybont, ac ymaelodi ym Methel gyferbyn. Cafodd magwraeth Gristnogol ar yr aelywd yn Walsall Stores ac yn arbennig ar aelywd y cysegr ym Methel.

Weddi dyddiau ysgol Talybont ac Ardwyn Aberystwyth fe aeth i Goleg Caerdydd i hyfforddi fel athrawes, a'i phwnc oedd Gwyddor Tŷ. Cychwynodd ei gyrfa yn Ysgol Rhymney, ac yna i Birmingham a Llanbedr Pont Steffan. Bu am gyfnod wedyn yn Drefnydd Bwyd Ysgolion yn Sir Aberteifi, ond dychwelodd i ddsygu yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth, a gorffennodd ei gyrfa yno.

Yn 1986 priododd a William (Bill) Richard Edwards ond cyfnod byr o fywyd priodasol a gafodd.

Roedd ganddi ddiddordeb mawr ym mywyd y gymuned yn Nhalybont. Bu'n ddiwyd iawn yn gwasanaethu ar nifer o bwyllgorau sef y Cyngor Plwyf, Neuadd Goffa a'r Ysgol, a chafod fwynhad mawr yn gwneud hynny. Bu yn ffyddlon ym Methel ac yr oedd yn organydd yno am flynyddoedd ac roedd wrth eu bodd yn cyflawni hynny.

Yr oedd ganddi ddiddordeb arbennig yn yr ardd, oedd yn ddarlun i'r llygad bob amser. Drwy gydol y fwyddyn yr oedd yn werth ei weld.

Yr oedd yn ffodus iawn o gael llawer o ffrindiau ac roedd yn werthfawrogol iawn ohonynt oll. Carai fynd ar wyliau pellennig gyda rhai ohonynt a mordeithiau yn arbennig. Ond daeth diwedd ar ei theithio. Wedi cyfnod byr yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, daeth ei phererindod daearol i ben ar 16fed o Fedi. Bu gwasaneth ei hangladd ym Methel ar 26ain o Fedi 2015. Rhoddwyd teyrnged hyfryd iddi gan ei gweinidog Y Parch. Richard Lewis a'r Parch. Andrew Lenny, Aberystwyth. Fe'i claddwyd ym mynwent Talybont. Gedy ei brawd Gwylfa a'i briod Buddug gydag atgofion hyfryd amdani.

*D. Gwylfa Evans, Harrow.*

## Kathleen Myfanwy (Fanw) Jones, 3 James Street, Tal-y-bont.

Merch ieuengaf Daniel ac Edith Stephens oedd Fanw. Hanai'r tad o Lanelli, tra o Dal-y-bont y deuai'r fam. Cyfarfu'r ddau yn Birmingham, gan i Daniel fynd yno i weithio fel postfeistr ac Edith i wasanaethu fel morwyn. Wedi iddynt briodi cawsant ddwy ferch, Jean a Myfanwy. Bu farw ei thad pan oedd Fanw ond yn 4 blwydd oed ac fel canlyniad symudodd y teulu yn ôl i hen gartref ei mam yn James Street, Tal-y-bont. Mynychodd Fanw yr ysgol gynradd leol ac yna Ysgol Ramadeg Ardwyn, ac yna wedi iddi adael yr ysgol bu'n gweithio yn Ellis Haberdashery yn Aberystwyth. Roedd Griff, gŵr Fanw, yn hanu o'r Bala ac fe gyfarfu'r ddau ar ôl i Griff a'i frawd John ddod i weithio i'r melinau gwlan yn Nhal-y-bont. Fe'u priodwyd yng nghapel y Tabernacl ym mis Gorffennaf 1942. Ganwyd iddynt ddau o blant, Glenys a Stephen.



Bu Fanw yn gweithio fel ysgrifenyddes mewn garej ym mhentre Ffwrnes am rai blynyddoedd ac hefyd bu'n cadw'r tea rooms enwog yn Nhal-y-bont gyda'i ffrind gorau Sarah Margaret. Roedd yn aelod gwerthfawr o'r gymuned a chyfrannodd yn helaeth i fywyd y pentref gan gysylltu ei hun â gweithgareddau'r neuadd a'r sioe. Er i Fanw gael ei chodi yn Fedyddwraig, ymaelododd hi a Griff yng nghapel Nasareth maes o law lle bu Fanw'n athrawes ysgol Sul am nifer o flynyddoedd. Ar ôl marwolaeth Griff yn 1993, daliodd ati i gyfrannu i fywyd y pentref ac er iddi gael ei chaethiwo i'w chartref yn ystod y blynyddoedd diwethaf parhaodd yn siriol ei gwedd ac yn uchel ei hysbryd. Pleser bob amser oedd cael ymweld â hi ar ei haelwyd.

Pan ddaeth y llifogydd i Dal-y-bont yn y fwyddyn 2012 roedd Fanw yn yr ysbyty ym Mronglais ac yn ffodus felly, ni welodd y difrod a achoswyd i'w chartref. Ymhen hir a hwyr gallodd ddychwelyd i fyw i James Street cyn symud yn ddiweddarach i fod gyda'i merch, Glenys, yn Stourbridge. Yno y bu farw ar 17 Awst eleni yn 94 mlwydd oed a chynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Aberystwyth ar 5 Medi. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Glenys a Stephen a gweddill y teulu.

*Wyn Morris*



## Digwyddiadau @Siop Cynfelyn

### Tachwedd - Rhagfyr 2015

**Sadwrn, Tachwedd 21** Taith Gerdded  
Cletwr – "Maps & Traps: Treasure hunt with map reading skills." Jenny Dingle. Cychwyn am 10.00yb. Rhaid arbed lle. Cysylltwch â'r Siop.

**Iau, Tachwedd 26** Noson Ffilmiau  
i Ddysgwyr: Gadael Lenin. Is-deitlau Saesneg. 19:30.

**Mawrth, Rhagfyr 1** Oriol y Cwtch: Beti Wyn Davies, Rachel Boothe & Kate Saunders

**Mawrth, Rhagfyr 1** Hyfforddiant CPR & Defibrilwr gyda Sefydliad Brydeinig y Galon. Rehoboth, Taliesin. Llefydd yn frin - Rhaid arbed lle. Cysylltwch â'r Siop.

**Iau, Rhagfyr 3** Peter Stephenson, Stofia. 19:30. Storiâu ddim yn addas ar gyfer plant iau 'na 7 mlwydd. Rhoddion.

**Sadwrn, Rhagfyr 5** Ffair Grefftau'r Gaeaf y Cletwr: 15:00-17:30.

**Sul, Rhagfyr 6** Celf a Chrefftau'r Nadolig. Sesiwn celf a chrefftau am ddim i'r teulu. 14:30-16:00.

**Sadwrn, Rhagfyr 12** Taith Gerdded Cletwr—"Kindling & Tinder." Jenny Dingle. Cychwyn am 10:00yb. Rhaid arbed lle. Cysylltwch â'r Siop.

**Sadwrn, Rhagfyr 12** Ffair Nadolig y Cletwr: 15:30-18:30

**Sadwrn, Rhagfyr 19** Cwrdd â Siôn Corn. Amser i'w gadarnhau

**Iau, Rhagfyr 24** Cwrdd â Siôn Corn. Amser i'w gadarnhau

**I gadw'ch lle, cysylltwch â:**  
cletwr@cletwr.com / 01970 832113 / @siopcynfelyn

## Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

**Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont**

**01970 832278 www.davmorgarage.co.uk**

## Parti Llongyfarch y Prifardd Hywel Griffiths

Cynhaliwyd digwyddiad unigryw yn Neuadd Goffa Tal-y-bont nos Sadwrn, 17 Hydref, wrth i drigolion lleol ymuno â theulu a ffrindiau'r Prifardd Hywel Griffiths i'w longyfarch ar gipio'r Gadair Genedlaethol yn Eisteddfod Meifod eleni.

Pan gyhoeddwyd y ffugenw 'Ceulan' o lwyfan y Brifwyl ym mis Awst cyflymmodd galonnau pobl Tal-y-bont a'r cyffiniau, a llenwyd y calonnau hynny â balchder pan safodd Hywel ar ei draed. Roedd y dathliad a gynhaliwyd yn y Neuadd yn gyfle, felly, i ddangos mewn ffordd ymarferol gwerthfawrogiad y gymuned o gamp Hywel.

Er bod enillwyr Cenedlaethol, Prifeirdd, Prif Lenorion ac enillwyr Gwobr Goffa Daniel Owen yn byw yn Nhal-y-bont, dyma'r tro cyntaf ers dyddiau W.J. Gruffydd, Elerydd i brifardd (a enillodd y goron tran'n byw ym Mans y Tabernacl) ddod i'r brig tra'n byw yn y pentref; a dyma'r tro cyntaf erioed i fardd y gadair wneud hynny.

Arweiniwyd y noson gan Eurig Salisbury, cyfaill oes i Hywel ac un a fu'n cyd-ymarfer y cynganeddion gydag ef ar y bws i'r ysgol slawer dydd. Cyn clywed y beirdd niferus yn cyfarch Hywel diddanwyd y gynulleidfa gan ymddangosiad ffug orsedd yn ail-greu y seremoni cadeirio. Ychwanegwyd at y pasiant gan nifer o ddawnsuwr sionc, dan hyfforddiant Alaw, yn cyflwyno dawns flodau anarferol

Yn ogystal â chywydd hyfryd gan Eurig cawdyd cyfraniadau didwyll a thrawiadol gan nifer o feirdd lleol a chenedlaethol, sef Gwenallt Llwyd Ifan, Huw Meirion Edwards, Iwan Rhys, Endaf Griffiths ac Aneirin Karadog. Talwyd teyrnged hefyd gan y Cynghorydd Sir lleol ac arweinydd Cyngor Ceredigion, Ellen ap Gwyn.

Roedd oedi'r gynulleidfa cyn ymadael ar y diwedd, tra'n sgrwsio dros baned a chacen a diod, yn arwydd o fwynhad yr holl rai a fu'n bresennol.

Llongyfarchiadau eto i Hywel. Mae'n siŵr y bydd yr achlysur yn aros yn hir yn y cof ac yn atgof parhaol i Hywel, Alaw a Lleucu o'u hamser yn Nhal-y-bont.

*Phil Davies*

## Y Gair Olaf



Rwy'n siŵr bod pawb, gyrrwr neu beidio, wedi sylwi ar y mesurau tawelu traffig newydd ym mhentref Tal-y-bont erbyn hyn. Arwyddion llachar sydd i weld o bell ym Mhenlôn; cyfyngu cyflymder i 20mya ar y lon gefn ac arwyddion ger Pont Fawr sydd yn ein hatgoffa o'r cyfyngiadau drwy'r pentref i ddiogelu'r gymuned.

Ond beth am y trigolion sydd yn byw'r ochr uchaf i Stryd y Ffatri? Mae cyfran fawr o'r traffig o gyfeiriad Aberystwyth yn dal i oryrru wrth ddod i mewn i'r pentref oddi ar ddarn o ffordd gyflym iawn. Mae'r sefyllfa yn un beryglus sydd yn achosi pryder nid yn unig i'r rhai sydd yn byw ar y rhiw ond i bawb sydd yn defnyddio'r darn yma ar droed gan nad oes pafin i'w gwarchod chwaith.

Nid yw'r arwyddion presennol '30' yn ddigon amlwg nac yn dal y llygad. Maent yn rhy agos i'r pentref i roi digon o rybudd ac wedi eu lleoli ger sietynnau mawr sydd yn gwaethygu'r sefyllfa. Yn ogystal, mae llawer o gerbydau sydd yn gadael y pentref am y dre yn goryrru cyn iddynt gyrraedd terfyn y cyfyngiad cyflymdra, gan nad oes arwyddion atgoffa ochr ucha' i'r bont.

Beth am gael arwyddion sydd yn cyfyngu cyflymder i 40mya cyn dod i mewn i'r 30 fel ochr draw'r pentref ac yn Nhaliesin? Neu arwyddion yn rhoi rhybudd o'r cyfyngiad i ddod, fel ym Mow Street? Mae'n drueni mawr fod yr holl asiantaethau a sefydliadau wedi colli ar y cyfle i gynnwys yr holl bentref yn y gwelliannau.

*Nia Evans, Rhinlan*



"Falle mai sôn am y darn rhwng Taliesin a Thal-y-bont ma' fe..."



Hywel Griffiths a Lleucu Haf

## Iwan Jones

### Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

01970 832760



# CHWARAEON



Tîm pêl-droed merched dan 14 oed Tal-y-bont yn eu cit newydd.



Derbyniodd y merched cit newydd gan Janet Evans, Cefngweiriog, gan iddi ennill cystadleuaeth yn ddiweddar. Derbyniwyd nawdd ychwanegol gan 'Taxi's Mach' ar gyfer archebu crys gôl-geidwad. Cafwyd dechrau boddhaol i'r tymor o ystyried bod y merched yn chwarae yn erbyn tîmau bechgyn yng nghynghrair Aberystwyth ar cylch.

Janet Evans yn derbyn blodau gan reolwyr tîm y merched, Karen Evans a Nikki Thomas.



Lee Morgan ar fin cael ei dacio gan un o fechgyn Llanilar.

# Cyffro a Chwffio

Mae wythnosau cyntaf y tymor wedi bod yn gyfnod anghyffredin o amrywiol i dîm pêl-droed Tal-y-bont. Wedi cipio'r bencampwriaeth llynedd, mae'r gobaith o efelychu campau'r tymor diwethaf dal yn fyw, gyda'r tîm ymhlith ceffylau blaen adran gyntaf Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r cylch.

Serch hynny cafwyd ambell i berfformiad gwael ar hyd y ffordd ac un fuddugoliaeth anarferol iawn. Dechreuodd Hydref gyda gêm i'w anghofio. Roedd disgwyl i Dal-y-bont guro Penrhyn-coch mewn gêm gwpan ar Gae'r Odyn Galch ond gyda'r sgôr yn gyfartal 1-1 ar ddiwedd y 90 munud, chwaraewyd amser ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwn sgoriodd Penrhyn ac roedd Tal-y-bont lawr i wyth dyn yn unig wrth i dri o'r bechgyn gael eu hanfon o'r maes. Tua'r diwedd, fodd bynnag, sgoriodd wyth dyn Tal-y-bont i unioni'r sgôr. Gwaetha'r modd, wedi hynny, collwyd ar giciau o'r smotyn. Talwyd yn ddrud felly am ddiffyg disgylleath.

Yn y gêm nesaf ar 10 Hydref torrwyd pob record mewn gêm gwpan arall bant yn Llan-non. Tîm gwan oedd gan Llan-non y diwrnod hwnnw a llwyddodd Tal-y-bont i rwydo 24 o weithiau ac ildio ond un gôl. Mae'n debyg mai dyma'r fuddugoliaeth fwyaf o ran goliau erioed yn hanes y clwb.

Yr wythnos ganlynoll colodd Tal-y-bont 5-0 yn erbyn Dolgellau. Dwy gêm gyfartal 1-1 yn erbyn Llanilar a Phenparcau a gafwyd ar y ddau Sadwrn olaf y mis. Prif nodwedd y gêm yn erbyn Llanilar oedd ffrwgwd yn yr ail hanner wrth i un o chwaraewyr Llanilar gollu ei ben yn llwyr gan ymosod a dyrnu Billy Williams druan. Ceisiodd un o fechgyn Tal-y-bont ei atal ond danfonwyd yntau o'r cae ynghyd â'r dihiryn o Lanilar. Mae'n debyg na fydd y dyfarnwr yn adrodd i'r gynghrair am y chwaraewr o Dal-y-bont gan iddo dderbyn yn y pen draw mai ceisio atal yr ymladd ydoedd.

Gohiriwyd y gêm yn erbyn Cei Newydd a oedd i'w chynnal ar 7 Tachwedd.



Robbie Southgate yn cadw'r bêl ar dir y chwarae.

Bwyd Da...  
Cwmni Da...  
**yBlac**  
TALYBONT

Eleni, beth am Barti Nadolig bythgofiadwy yn yBlac!  
Ffoniwch neu e-bostiwch i archebu.  
**01970 832 555** [croeso@yblac.co.uk](mailto:croeso@yblac.co.uk)

**Morlan**  
Canolfan ffydd a diwylliant  
Centre for faith and culture

**DEG DROS DDEG: FY NEGAWD 1 (7.30, 4 Rhagfyr).** Fel rhan o'r deg digwyddiad dros ddeg mis i nodi dengmlwyddiant Morlan, bydd Sian Howys, Alun Morris, Judith Morris a John Roberts yn trafod eu profiadau ffydd yn y cyfnod ers agor Morlan. Cadeirydd: Pryderi Llwyd Jones. Mynediad: £3.

**Manylion llawn:**  
[www.morlan.org.uk](http://www.morlan.org.uk)

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH  
01970-617996; [morlan.aber@gmail.com](mailto:morlan.aber@gmail.com); @MorlanAber

Cyngor Cymuned  
**Ceulanamaesmawr**

**Cynnu Goleuadau  
Nadolig & Charolau**

Lluniaeth Ysgafn  
Dydd Iau 3 Rhagfyr  
16:00  
Neuadd Goffa Tal-y-bont

**Croeso i Bawb**